# Busnes Cymdeithasol Cymru

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol

Wales **Co-operative** Centre
Canolfan **Cydweithredol** Cymru

# Cynhadledd Busnes Cymdeithasol Cymru 2016

Cefnogi busnesau cymdeithasol a dyheadau i dyfu a bod yn fwy cynaliadwy

**#SBWConf16**



Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

# Cynnwys

2. Croeso

3. Ynglŷn â Busnes Cymdeithasol Cymru

4. Rhaglen y digwyddiad

6. Gweithdai

8. Cynllun llawr

9. Arddangoswyr

10. Dyddiadau ar gyfer y dyddiadur
- Dydd Sadwrn Cymdeithasol 2016
- Rhwydweithiau Busnes Cymdeithasol Cymru

12. Ymunwch â'r sgwrs ar-lein
- Twitter
- Doopoll
- Wi-fi

# Croeso i Gynhadledd Busnes Cymdeithasol Cymru 2016

Nid yw'r sector mentrau cymdeithasol yng Nghymru erioed wedi bod mor fywiog a hyderus am y dyfodol, yn cyflogi dros 38,000 o bobl, yn cynorthwyo 38,500 o wirfoddolwyr gweithredol ac yn cyfrannu amcangyfrif o £1.7biliwn i'r economi genedlaethol. Fodd bynnag, nid yw'n amser i aros yn llonydd a nod y Gynhadledd heddiw yw ysbrydoli a chynorthwyo'r busnesau cymdeithasol hynny sydd â dyheadau i dyfu a bod yn fwy cynaliadwy.

Gobeithiwn, erbyn diwedd y gynhadledd heddiw, y byddwch wedi ennill nifer o syniadau a sgiliau ymarferol a fydd yn galluogi eich busnes cymdeithasol i roi cynnig ar farchnadoedd newydd, mabwysiadu strwythurau newydd neu ddatblygu cynhyrchion a gwasanaethau newydd.

I gyflawni hyn, mae Busnes Cymdeithasol Cymru wedi sicrhau prif siaradwyr o amrywiaeth o gefndiroedd – y llywodraeth, y sector preifat, y sector cyhoeddus a mentrau cymdeithasol – pob un yn darparu safbwynt ysbrydoledig a heriol ar rôl busnesau cymdeithasol deinamig mewn Cymru ffyniannus a llewyrchus.

Fel prosiect sy'n cynorthwyo busnesau cymdeithasol yng Nghymru sydd eisiau cyflymu eu twf, byddwn yn cynnal cyfres o weithdai blasu rhyngweithiol i ddechrau'r daith honno, o wella eich presenoldeb ar y we a'ch arddull cyflwyno i arallgyfeirio a gweithio fel consortia. Hefyd, bydd ein hardal arddangoswyr yn amgylchedd perffaith i rwydweithio a meithrin partneriaethau gyda'n partneriaid o'r sector cyhoeddus a'r sector preifat.

Mwynhewch y gynhadledd, a chofiwch rhannu eich profiadau gyda ni trwy gydol y dydd gan ddefnyddio Doopoll ein digwyddiad a'r hashnod cyfryngau cymdeithasol #SBWConf16

Yn gywir,

**Glenn Bowen**,
Cyfarwyddwr y Rhaglen Mentrau,
Busnes Cymdeithasol Cymru



# Busnes Cymdeithasol Cymru

/busnescymru.llyw.cymru/busnescymdeithasol

Wales **Co-operative** Centre
Canolfan **Cydweithredol** Cymru

## Fel busnes cymdeithasol sydd eisiau tyfu, mae gennych hawl i gymorth busnes arbenigol rhad ac AM DDIM gan Busnes Cymdeithasol Cymru.

Caiff Busnes Cymdeithasol Cymru ei ariannu gan Gronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop a Llywodraeth Cymru. Caiff ei ddarparu gan Ganolfan Cydweithredol Cymru fel rhan o wasanaeth Busnes Cymru.

Busnes Cymdeithasol Cymru yw'r diweddaraf mewn rhestr o brosiectau sydd wedi creu dros 300 o fusnesau newydd a bron 400 o swyddi yn y sector yn ystod y pum mlynedd diwethaf.

Rydym hefyd yn arloesi perchenogaeth gweithwyr a chydweithio ymhlith busnesau prif ffrwd.

Eisiau trosiant uwch? Mwy o staff? Sgiliau TG gwell? Ymosod ar farchnadoedd newydd? Nid oes gan unrhyw asiantaeth arall ein profiad helaeth ni ym maes busnes cymdeithasol.

**Os ydych yn fusnes cymdeithasol sydd eisiau tyfu a bod gennych ddiddordeb mewn cael ein cymorth busnes arbenigol rhad ac am ddim:**

Ffoniwch Busnes Cymru ar **03000 6 03000**
a dyfynnu ***'Busnes Cymdeithasol Cymru'***

**busnescymru.llywcymru/busnescymdeithasol**

Busnes Cymru | Business Wales

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

UNDEB EWROPEAIDD
EUROPEAN UNION

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

**Cronfa Datblygu Rhanbarthol Ewrop**
**European Regional Development Fund**

# Rhaglen y digwyddiad

## Cyntedd
Ystafell Sinclair, Llawr 2
(mynediad trwy lifftiau a grisiau)

8:30am
### Cofrestru, lluniaeth a rhwydweithio

## Prif Theatr
Ystafell Sinclair, Llawr 2
(mynediad trwy lifftiau a grisiau)



9:15am
### Anerchiad groeso
**Derek Walker**, Prif Weithredwr, Canolfan Cydweithredol Cymru

Daeth Derek Walker yn Brif Weithredwr Canolfan Cydweithredol Cymru ym mis Ionawr 2011. Mae Canolfan Cydweithredol Cymru yn asiantaeth datblygu cydweithredol, sy'n cymhwyso ei gwerthoedd i gynorthwyo busnesau cymdeithasol, cryfhau cymunedau, trechu tlodi a hyrwyddo cynhwysiant. Rhwng 2004 a 2009, gweithiodd Derek fel Pennaeth Polisi ac Ymgyrchoedd yn TUC Cymru. Un o'i brif gyflawniadau yn y rôl oedd sefydlu Cytundeb Gweithlu Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru rhwng gweithwyr y sector cyhoeddus ac undebau llafur.



9:40am
### Prif siaradwr: Sophie Howe
**Sophie Howe**, Comisiynydd Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru

Cafodd Sophie ei phenodi'n Gomisiynydd cyntaf Cenedlaethau'r Dyfodol Cymru ym mis Chwefror 2016. Ei rôl yw gweithredu fel gwarcheidwad buddiannau cenedlaethau'r dyfodol yng Nghymru, a chefnogi'r cyrff cyhoeddus a restrir yn Neddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Mae Sophie hefyd wedi gweithio fel Cynghorydd Arbennig i'r Llywodraeth gan roi cyngor polisi a gwleidyddol.



10:00am
### Prif siaradwr: Andy Middleton
**Andy Middleton**, Cyfarwyddwr Sefydlolc, TYF Group

Andy yw Cyfarwyddwr Sefydlol TYF Group, menter gymdeithasol arloesol a gweledigaethol sydd wedi'i lleoli yn Nhyddewi, Sir Benfro. Mae nodau TYF yn cynnwys helpu busnesau i fanteisio i'r eithaf ar effaith eu gweithgareddau cyfrifoldeb cymdeithasol corfforaethol ar gyfer y gymuned a chenedlaethau'r dyfodol. Fel Partner Sefydlol 'Do Lectures' a chydlynydd 'Do Collective', mae'n cydweithio â sefydliadau i gysylltu'r hyn y maent yn ei wneud â chyflymder a graddfa'r newid sydd ei angen.

10:20am
### Holi ac ateb
Holi ac ateb -**Sophie Howe** ac **Andy Middleton**.

## Ardal arddangos

Ystafell Gŵyr, Llawr 1
(mynediad trwy lifftiau a grisiau)

10:30am
### Egwyl goffi, rhwydweithio



11:15am
### Prif siaradwr: Ken Skates AC

**Ken Skates AC**, Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith

Ganed Ken Skates AC, ym 1976 yn Wrecsam, ac fe'i haddysgwyd yn Ysgol Alun yn yr Wyddgrug. Aeth ymlaen i astudio Gwyddorau Cymdeithasol a Gwleidyddol ym Mhrifysgol Caergrawnt. Ym mis Mai 2016, fe'i penodwyd yn Ysgrifennydd y Cabinet dros yr Economi a'r Seilwaith yng Nghymru.

Mae diddordebau polisi Ken yn cynnwys gweithgynhyrchu, chwaraeon a hamdden, iechyd meddwl, yr economi wleidyddol a chynhwysiant cymdeithasol. Yn ei amser rhydd, mae Ken yn mwynhau rhedeg, nofio, heicio a golff, yn ogystal â diddordeb mewn garddio, celf a phensaernïaeth.

11:30am
### Gweithdai Rownd Un

Ystafelloedd ymneilltuo
(Gweler gweithdai ar dudalennau 6 a 7)

**O.N:** Bydd y gweithdai'n cael eu hailadrodd yn ystod y dydd, felly byddwch yn cael cyfle i fynychu mwy nag un sesiwn.

## Ystafell Gŵyr

Ystafell Gŵyr, Llawr 1
(mynediad trwy lifftiau a grisiau)

12:45pm
### Cinio a gweld yr arddangosfeydd



1:45pm
### Prif siaradwr: Rachael Flanagan

**Rachael Flanagan**, Sefydlydd Gyfarwyddwr, Mrs Buckét

Mae Rachael yn entrepreneur ifanc arobryn ac enwog o Abertawe, â chanddi stori twf busnes rhyfeddol. Yn 16 oed, nid oedd gan Rachael unrhyw syniad beth yr oedd eisiau ei wneud ond, trwy waith caled a chraffter busnes da, naw mlynedd yn ddiweddarach, mae gan Rachael 200 o staff, yn gwasanaethu dros 150 o eiddo masnachol yn ddyddiol. Gan rannu beth mae wedi'i ddysgu ar dwf i safbwynt y sector preifat, mae Rachael yn siaradwraig ddiddorol ac ysbrydoledig â brwdfrydedd heintus dros fusnes.

2:30pm
### Gweithdai Rownd Dau

Ystafelloedd ymneilltuo
(Gweler gweithdai ar dudalennau 6 a 7)




3:45pm
### Astudiaeth achos effaith gymdeithasol: Down to Earth

Wedi'i leoli yn y Gŵyr, mae Down to Earth wedi bod yn darparu rhaglenni hyfforddi a datblygu ers deng mlynedd, ac mae'n datblygu enw da yn gyflym fel enghraifft o arfer gorau ar gyfer gweithio gyda phobl sy'n byw mewn amgylchiadau heriol trwy natur, adeiladu cynaliadwy a'r awyr agored. Bydd y cyd-sefydlydd, Mark McKenna, yn cyflwyno rhai unigolion y mae eu bywydau wedi cael eu trawsffurfio gan y fenter gymdeithasol, i'n hatgoffa ni pa mor werthfawr yw'r sector hwn i'r economi leol a'n cymunedau.

4:15pm
### Sylwadau terfynol

4:30pm
### Gorffen

# Gweithdai



## Sut i gyflwyno ac ysbrydoli

**Cyflwynydd:** Ruth Anslow, Cyd-sylfaenydd, hiSbe
**Cadeiryddion:** Marc Flaherty a Serena Allen, Busnes Cymdeithasol Cymru
**Ystafell:** Prif Theatr

A minnau'n gyd-sylfaenydd hiSbe Food, rwy' wedi profi uchafbwyntiau, isafbwyntiau, peryglon a maglau cyflwyno! Rwy'n gwybod sut gall y ffordd rydych chi'n cyflwyno'ch menter gymdeithasol i bobl wneud gwahaniaeth rhwng cyffroi pobl ynglŷn â'ch cefnogi chi, neu weld yr olwg farwaidd honno ar ochr arall y ddesg. Felly, rwy'n mynd i rannu'r hyn yr wyf i wedi'i ddysgu am gyflwyno'n llwyddiannus, i'ch helpu i greu cyflwyniad sy'n ysbrydoli pobl.

1



## Amrywiaethu eich ffrydiau incwm

**Cyflwynwyr:** Gofal Enterprise, Vi-Ability, Greenwillow Funerals, Down to Earth
**Cadeiryddion:** Branwen Ellis a Mike Jones, Busnes Cymdeithasol Cymru
**Ystafell:** Lolfa'r Sant Helen's

Mae amrywiaethu'n anoddach na'r dewis "mwy o'r un peth" i fusnesau cymdeithasol oherwydd ei fod yn golygu datblygu a darparu cynhyrchion neu wasanaethau y tu hwnt i'r hyn sy'n gyfforddus iddynt ar hyn o bryd. Os oes gennych chi ddiddordeb mewn amrywiaethu eich ffrydiau incwm ond nad ydych yn gwybod ble i ddechrau, dyma'r sesiwn i chi. Bydd panel o arbenigwyr wrth law i ateb eich cwestiynau yn ystod y drafodaeth bord gron hon a fydd yn canolbwyntio ar arfer gorau a rhannu dysgu mewn perthynas ag amrywiaethu.

2



## Achub y blaen: Y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol

**Cyflwynydd:** Andy Middleton, Sylfaenydd Gyfarwyddwr, Grŵp TYF
**Cadeiryddion:** Nicola Mehegan ac Esther Price, Busnes Cymdeithasol Cymru
**Ystafell:** Ystafell y Ganmlwyddiant

Mae'r Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn newid sylweddol i'r sector menter gymdeithasol - mae'n gosod dyletswydd ar y llywodraeth i wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae cynaliadwyedd ac effaith gymdeithasol eisoes wrth wraidd ein harferion busnes. Felly, sut gallwn droi'r gwerthoedd hynny'n gyfleoedd busnes newydd a gwneud yn siŵr mai ni yw'r dewis cyntaf wrth sicrhau contractau newydd mawr a gaffaelir gan Lywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol?

3



## Gwneud eich gwefan yn ased

**Cyflwynydd:** Greg Ashton, Reason Digital
**Cadeiryddion:** David Madge a Paul Ashman, Busnes Cymdeithasol Cymru
**Ystafell:** Lolfa'r Cae Vetch

Mae Greg yn gweithio i asiantaeth ddigidol a menter gymdeithasol Reason Digital (**www.reasondigital.com**) gan arwain ym maes gweithdai i gleintiaid yn eu tîm Strategaeth a Mewnwelediad. Mae Greg yn arbenigo mewn dadansoddeg, gwneud y gorau o injans chwilio (SEO) a Thalu Fesul Clic (PPC). Yn y gweithdy hwn, bydd Greg yn edrych ar ycamau ymarferol y gall busnesau cymdeithasol eu cymryd i wneud eu gwefan yn ased gwerthfawr sy'n cyflymu twf ac effaith gymdeithasol.

4



## Rheoli ymgysylltu â gweithwyr yn ystod adeg o newid

**Cyflwynwyr:** Busnes Cymdeithasol Cymru, Grŵp Arup, Canolfan Hamdden Splash Magic
**Cadeiryddion:** Joelle Campbell, Tricia Morgan a Sarah Owens, Busnes Cymdeithasol Cymru
**Ystafell:** Lolfa'r Gnoll

Gall trosglwyddo asedau cymunedol, cyfuno a chaffael neu berchenogaeth gan weithwyr achosi i lawer o weithwyr deimlo'n ddryslyd neu'n ansicr ynglŷn â'u lle yng nghyfeiriad newydd y sefydliad. Bydd y gweithdy hwn, a arweinir gan Busnes Cymdeithasol Cymru, Grŵp Arup (y mae ei weithwyr yn berchen arno) a Cambrian Aquatics (trosglwyddo ased cymunedol), yn mynd i'r afael â'r canlynol:

- Beth yw ymgysylltu â gweithwyr, a pham mae'n bwysig?
- Beth sy'n digwydd i ymgysylltu â gweithwyr yn ystod gwahanol fathau o newid?
- Beth all sefydliadau ei wneud i ddeall a rheoli ymgysylltu â gweithwyr yn ystod adeg o newid?

5



## Gweithio mewn Consortia


**Cyflwynwyr:** Paul Cantrill, Busnes Cymdeithasol Cymru ac Alan Aitken, Pennaeth Caffael, Cyngor Sir Gâr
**Cadeirydd:** Rhian Edwards, Busnes Cymdeithasol Cymru
**Ystafell:** Ystafelloedd Sinclair 2

Gall unig fasnachwr neu fusnes bach a chanolig wella ei refeniw, ei broffidioldeb a'i statws, yn ogystal â lleihau ei sylfaen gostau, trwy sefydlu consortia gyda busnesau eraill. Rydym ni yn Busnes Cymdeithasol Cymru yn annog busnesau i ffurfio consortia cydweithredol er mwyn hybu cadwyni cyflenwi byr, gwella cystadleugarwch busnesau a datblygu marchnadoedd lleol. Bydd y gweithdy hwn, a gyflwynir gan ein harbenigwyr mewnol, yn edrych yn fanwl ar sut gall busnesau cymdeithasol weithio gyda'i gilydd yn fwy llwyddiannus i ennill contractau gwasanaeth cyhoeddus a allai ddwyn llawer o elw.


6

# Cynllun Llawr

## Llawr 1




## Llawr 2




# Partner Cyfryngau: Co-operative News

Mae Co-operative News wedi bod yn llais y mudiad cydweithredol ers 145 o flynyddoedd. Rydym yn cysylltu, yn herio ac yn hyrwyddo cydweithrediadau o bob maint ar draws pob sector, ar bapur ac ar-lein. Darganfyddwch fwy ar: **www.thenews.coop**

Co-operative Press

# Ein Harddangoswyr

Acuity Legal

Arup Group

Awel Aman Tawe

BIC Innovation

Busnes Cymru

CAIS

Cambrian Aquatics

Charity Bank

Cooperative & Community Finance

Co-operative News

Tai Cydweithredol

Creating Enterprise

Cycle Training Wales

Cymunedau Digidol Cymru

Down to Earth

Elite Paper Solutions

Fern Partnership

Full Circle Education

Greenstream Flooring

Hugh James

Indifference proud to be

Landsker

Market Hall Cinema

National Council for Voluntary Organisations (NCVO)

NatWest

Park House Financial Services

PS Facilities Management

RCS

Reason Digital

Red Dragon Flag Makers

Busnes Cymdeithasol Cymru

Cyflymu Cymru I Fusnesau

Toogoodtowaste

Torfaen Leisure Trust


TYF Group

UnLtd

Wales Restorative Approaches Partnership (WRAP)

WCVA

# Dyddiadau ar gyfer y dyddiadur



## Dydd Sadwrn Cymdeithasol 2016

Mae *Dydd Sadwrn Cymdeithasol* yn ymgyrch ledled y DU a ddechreuodd yng Nghymru, sydd â'r nod o godi ymwybyddiaeth o fusnesau cymdeithasol ac annog defnyddwyr i brynu rhywbeth oddi wrthynt ar y dyddiad hwnnw. Fe'i cynhelir eleni **ddydd Sadwrn, 15 Hydref**.

Caiff ei gydlynu'n genedlaethol gan Social Enterprise UK, a'i reoli yng Nghymru gan Busnes Cymdeithasol Cymru. Rydym wedi cynhyrchu deunyddiau ar ein gwefan ar gyfer pob menter gymdeithasol sydd eisiau cynnal digwyddiadau a hyrwyddo eu busnesau ar *Ddydd Sadwrn Cymdeithasol neu yn y cyfnod cyn hynny*.

Rydym yn eich annog chi i gyd i gefnogi ymgyrch 'Prynu'n Gymdeithasol' eleni a'n helpu ni i ledaenu'r gair ynghylch pam mae'r sector hwn mor werthfawr i'n heconomi a'i gymunedau.

Ewch i'n gwefan www.socialsaturday.wales ac ymunwch yn sgwrs yr ymgyrch gan ddefnyddio'r hashnod **#SadwrnCymdeithasolCymru16**

Social Enterprise UK

**Busnes Cymdeithasol Cymru**

# Rhwydweithiau Busnes Cymdeithasol Cymru

Mae nôl! Bydd y digwyddiad rhwydweithio ar gyfer busnesau cymdeithasol yng Nghymru yn dychwelyd fis Rhagfyr.

Mae digwyddiadau rhwydweithio Busnes Cymdeithasol Cymru yn gyfle i gyfarfod ag arweinwyr busnesau cymdeithasol eraill, dysgu am ddatblygiadau newydd a rhannu syniadau a chyfleoedd gyda phobl sy'n wynebu'r un heriau â chi.

Bydd pob digwyddiad yn cynnwys siaradwyr gwadd gwahanol a fydd yn siarad am ymagweddau arloesol at y ffordd y maen nhw wedi tyfu a datblygu eu busnes.

## Digwyddiadau Cyfarfod â'ch Buddsoddwr Cymdeithasol

Mae Busnes Cymdeithasol Cymru wrthi'n ceisio dod â busnesau cymdeithasol yn agosach at arianwyr a buddsoddwyr cymdeithasol. Ar ôl llwyddiant digwyddiadau eleni, rydym wrthi'n trefnu dau ddigwyddiad '*Cyfarfod â'ch Buddsoddwr Cymdeithasol*' ym mis Mehefin 2017 i roi cyfle i chi rwydweithio gydag arianwyr a buddsoddwyr gwahanol i ddarganfod pa gymorth y gallant ei gynnig i'ch busnes. **Bydd llawer o ddiddordeb yn y digwyddiadau hyn, felly gwnewch yn siwr eich bod chi'n trefnu lle'n gynnar!**

### Rhagfyr 2016

| | | |
|---|---|---|
| De-orllewin | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Sir Gâr | 6 Rhagfyr |
| South East | Clwb Pêl-droed Tref Merthyr, Parc Penydarren, Merthyr Tudful | 7 Rhagfyr |
| Gogledd | Glasdir, Llanrwst | 8 Rhagfyr |

### Chwefror / Mawrth 2017

| | | |
|---|---|---|
| De-orllewin | I'w gadarnhau | 28 Chwefror |
| De-ddwyrain | Y Swyddfeydd Cyffredinol, Glynebwy | 1 Mawrth |
| Gogledd | Glasdir, Llanrwst | 2 Mawrth |

### Mai 2017

| | | |
|---|---|---|
| De-orllewin | Gardd Fotaneg Genedlaethol Cymru, Sir Gâr | 16 Mai |
| De-ddwyrain | Y Hwb, Pontypridd | 17 Mai |
| Gogledd | I'w gadarnhau | 18 Mai |

### Digwyddiadau Cyfarfod â'ch Buddsoddwr Cymdeithasol – Mehefin 2017

| | | |
|---|---|---|
| De | Stadiwm Liberty, Abertawe | 13 Mehefin |
| Gogledd | Glasdir, Llanrwst | 15 Mehefin |



# Ymunwch â'r sgwrs ar-lein

## Twitter

Byddwn yn trydaru trwy gydol y digwyddiad o @socialbizwales, felly dewch o hyd i ni a'n dilyn ni. Peidiwch ag anghofio defnyddio hashnod y digwyddiad #sbwconf16 wrth drydaru.

## Doopoll

Am y tro cyntaf, rydym wedi uno â Doopoll i gynnal cyfres o bolau amser real ar amrywiaeth o destunau a phynciau trwy gydol y dydd. Rydym yn gwerthfawrogi eich adborth ac, wrth ddefnyddio ein ap arolwg newydd, mae gennym y gallu i rannu ac ymateb i'r safbwyntiau hynny ar unwaith. Mae'r polau hyn yn 100% anhysbys a'r cyfan fydd ei angen arnoch i gymryd rhan yw ffôn / llechen â chysylltiad wi-fi.
I ddechrau arni, ewch i www.dpll.co/sbwconf16

## Wi-fi

Mae Wi-fi yn ddi-dâl yn y lleoliad a chewch fanylion ynghylch sut i gysylltu wrth y ddesg gofrestru.